## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Bydd Practisiau Meddygon Teulu yn gwneud cais am Drwydded Noddi pan fyddan nhw am gyflogi Gweithiwr Medrus a bydd PCGC yn darparu cefnogaeth ac arweiniad**

| | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Practis Meddyg Teulu** | Nodi eu hunain i Dîm CoS PCGC fel un sydd angen gwneud cais am Drwydded CoS | Gwneud cais am Drwydded CoS drwy'r Swyddfa Gartref gan gofrestru arweinydd y Practis fel Swyddog Awdurdodi, Cyswllt Allweddol a defnyddiwr Lefel Un | Talu am Gais am Drwydded CoS drwy gerdyn (gellir talu £500 yn ychwanegol i dderbyn penderfyniad o fewn 10 diwrnod os oes angen) | Hysbysu PCGC bod Trwydded Tîm CoS wedi bod yn llwyddiannus ac wedi'i sefydlu | Gofyn am Ddefnyddwyr Lefel Un ychwanegol ar System Rheoli Noddwyr ar gyfer mynediad pellach o fewn y Practis | Gofyn am ddyraniad CoS heb ei ddiffinio ar System Rheoli Noddwr | Cytuno i gyflogi GPST ac chynnal archwiliadau recriwtio arferol |
| | Cam 8 | Cam 9 | Cam 10 | Cam 11 | Cam 12 | Cam 13 | |
| **Practis Meddyg Teulu** | Gwneud cais am CoS ar System Rheoli Noddwyr y Swyddfa Gartref | Derbyn Hawlen Breswylio Fiometrig (BRP)/Share Code gan Feddyg Teulu a'u cadw ar gofnod cyflogaeth | Diweddaru System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) | Monitro gweithgarwch Gweithiwr Medrus ac adrodd ar unrhyw newidiadau ar y System Rheoli Noddwyr (yn unol â'r Canllawiau 'Adrodd ar Weithgarwch Ymfudwyr') | Ar ôl derbyn cymeradwyaeth trwydded y Swyddfa Gartref, rhoi cais am ad-daliad ffioedd Trwydded CoS a/neu ffioedd noddi unigol, drwy e-bostio **anfoneb PDF** (*wedi'i marcio At Sylw Tystysgrif Nawdd Cyllid PCGC*) a**chadarnhad y Swyddfa Gartref**, i: nwssp_psu_p2p@wales.nhs.uk gan anfon copi hefyd i NWSSP.Finance@wales.nhs.uk<br><br>Cyfeiriwch yr anfoneb at y canlynol: Cyllid PCGC, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Blwch Post 112, Pont-y-pŵl, NP4 4DG<br><br>Bydd y cais yn cael ei ychwanegu at Oracle er mwyn i Gyllid ei adolygu a'i awdurdodi i'w dalu<br><br>*(Os ydych yn anfon anfoneb am ffioedd noddi unigol, cadarnhewch enw'r meddyg teulu sy'n cael ei noddi)* | Derbyn ad-daliad Ffioedd y Swyddfa Gartref | |
| **Tîm Tystysgrif Nawdd (CoS) PCGC** | Rhoi cymorth i Bractis Meddyg Teulu yn ystod Cais am Drwydded gyda'r Swyddfa Gartref | Darparu cymorth i Bractis Meddyg Teulu yn gofyn am Ddefnyddiwr Lefel un ychwanegol ar y System Rheoli Noddwyr, os gofynnir amdano | Darparu cymorth i Bractis Meddyg Teulu sy'n gofyn am ddyrannu CoS heb ei ddiffinio ar y System Rheoli Noddwyr, os gofynnir am hynny | Derbyn rhestr GPST gan AaGIC a chyfathrebu y gallwn gefnogi practis meddyg teulu i sefydlu trwydded ac hefyd yn darparu rhestr o bractisiau meddyg teulu sydd â thrwyddedau | Darparu cefnogaeth i Bractis Meddyg Teulu sy'n neilltuo CoS ar y System Rheoli Noddwyr, os gofynnir amdano | Darparu cefnogaeth i Bractis Meddyg Teulu i fonitro gweithgarwch Gweithwyr Medrus ac adrodd ar unrhyw newidiadau ar y System Rheoli Noddwyr (yn unol â'r Canllawiau 'Adrodd ar Weithgarwch Ymfudwyr'), os gofynnir amdanynt | |
| **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** | Canfod GPSTs sydd i fod i gwblhau eu hyfforddiant ac sydd angen CoS pellach i weithio yng Nghymru | Darparu rhestr i Dîm Tystysgrif Nawdd Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC a Chyflogwr Arweiniol Sengl | | | | | |
| **Hyfforddai Meddyg Teulu Arbenigol (GPST)** | Cael cynnig cyflogaeth amodol gyda Phractis Meddyg Teulu | Gwneud cais am Fisa Gweithiwr Medrus | | | | | |
| **Y Swyddfa Gartref** | Darparu trwydded Practis Meddyg Teulu o fewn amserlenni penodol | Yn rhoi Fisa Gweithiwr Medrus i'r meddyg teulu | | | | | |
| **Cyllid NWSSP** | Derbyn anfoneb gan Bractis Meddyg Teulu lle rhoddwyd caniatâd y Swyddfa Gartref | Adolygu ac awdurdodi anfoneb trwy Oracle am daliad | | | | | |
| **Cyflogwr Arweiniol Sengl (SLE)** | SLE i gysylltu â'r unigolyn dan hyfforddiant 3 mis cyn y Dyddiad Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT) i ddarparu dolen wefan Cymorth CoS a swyddi gwag cyfredol drwy GPWales | | | | | | |

GIG Cymru NHS Wales | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

Llywodraeth Cymru Welsh Government